Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Pecyn cymorth Estyn ar gyfer sicrhau ansawdd arolygiadau trwy Ffurflenni Gwerthuso Arolygydd (FfGA)

## Canllawiau i arolygwyr cymheiriaid, arolygwyr tîm, arolygwyr lleyg ac arolygwyr cofnodol

## Diweddarwyd ar gyfer Medi 2024

## Tudalen wybodaeth

Blwch gwybodaeth

Am fwy o gyngor cysylltwch â: Fiona Arnison AEF neu Liz Barry AEF

Dyddiad cyhoeddi:
Dyddiad adolygu arfaethedig:

**Rheoli fersiwn**

| Dogfen fersiwn | Awdur | Dyddiad cyhoeddi | Newidiadau a wnaed |
|---|---|---|---|
| 1.0 | Barry Norris | Ionawr 2013 | |
| 1.1 | Barry Norris | Ebrill 2013 | Mân ddrafftio |
| 2.0 | Barry Norris | Medi 2017 | Diwygiadau ar gyfer y trefniadau arolygu newydd o Fedi 2017 ymlaen |
| 3.0 | Fiona Arnison | Medi 2018 | Mân newidiadau i deitlau grid y FfGA; symud yr arweiniad ar brotocol y SAAd i Arolygwyr Cofnodol ac arolygwyr SAAd i ddogfen ar wahân |
| 3.1 | Fiona Arnison | Mawrth 2019 | Symud arweiniad y FfGA i ddogfen ar wahân, fel ei bod yn haws i arolygwyr cymheiriaid, arolygwyr ychwanegol ac arolygwyr cofnodol gael ato |
| 3.2 | Fiona Arnison | Hydref 2019 | Eglurhad o radd C i gyd-fynd â'r polisi sicrhau ansawdd cyffredinol |
| 4.0 | Fiona Arnison | Mai 2021 | Diweddaru iaith parthed barnau i fod yn gydnaws â'r fframwaith arolygu o 2021 |
| 5.0 | Fiona Arnison/Liz Barry | Medi 2024 | Diweddarwyd i gyd-fynd â threfniadau arolygu o 2024 |

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynghylch y polisi hwn at:

Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

| **Asesiad Effaith Cydraddoldeb**<br><br>Cynhaliwyd asesiad rhesymwaith busnes ac mae'r polisi hwn yn cyfrannu at amcanion strategol ac egwyddorion cyflwyno Estyn.<br><br>Yn unol ag Asesiad Effaith Cydraddoldeb Estyn, cynhaliwyd asesiad effaith sgrinio cychwynnol ac ni ystyrir bod y polisi hwn yn cael effaith andwyol ar sail y naw nodwedd warchodedig a gyflwynir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. |
|---|

Ⓗ **Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn (heblaw logos yr adrannau) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad penodol.**

## Ffurflenni ac arweiniad Sicrhau Ansawdd – Ffurflenni Gwerthuso Arolygydd (FfGA)

Pwrpas Ffurflenni Gwerthuso Arolygydd (FfGA) yw galluogi Estyn i gasglu gwybodaeth am ansawdd ei waith arolygu. Rydym yn dadansoddi'r deilliannau ac yn defnyddio'r wybodaeth i hyrwyddo gwaith arolygu o ansawdd uchel, i ymchwilio ymhellach i sefyllfaoedd pan fydd pryderon am ansawdd arolygu ac i lywio ein gwaith hyfforddi a datblygu ar gyfer arolygwyr. Gallem ddefnyddio'r deilliannau wrth ystyried tendrau a dyfarnu contractau arolygu.

Ym mhob arolygiad, mae'n ofynnol i Arolygwyr Cofnodol lenwi Ffurflen Gwerthuso Arolygydd (FfGA) ynghylch gwaith unrhyw Arolygydd Tîm, Arolygydd Cymheiriaid ac Arolygydd Lleyg sydd dan gontract. Mae'r FfGA ar gael i arolygwyr yn yr Ystafell Arolygu Rithwir (YAR) ar gyfer pob arolygiad. Fel arfer, dylai arolygydd cofnodol gyfeirio sylwadau yn y ffurflen yn uniongyrchol at yr arolygydd cymheiriaid, neu'r arolygydd dan gontract, h.y. yn yr 2il berson (er enghraifft, *fe wnaethoch chi hynny,* neu *nesaf, mae angen i chi weithio ar....).* Mae hyn yn sicrhau bod y FfGA yn bersonol a chefnogol. Fodd bynnag, wrth fod yn bersonol, dylai Arolygwyr Cofnodol ofalu nad ydynt yn gwanhau negeseuon anodd, gan fod angen cyfleu'r rhain i'r arolygydd bob amser.

Yn gyntaf, mae'r Arolygwyr Tîm, Cymheiriaid a Lleyg yn cael cyfle i gwblhau hunanasesiad o'u gwaith eu hunain a nodi'r graddau ansawdd (A-D) sy'n briodol, yn eu barn nhw, ar y FfGA. Mae ganddynt 5 niwrnod i wneud hyn ar ôl diwedd yr arolygiad. Rydym yn annog pob arolygydd i fod yn fyfyriol a nodi meysydd i ganolbwyntio arnynt yn y dyfodol sy'n gallu ein helpu i deilwra cymorth a hyfforddiant. Wedi hynny, mae Arolygwyr Cofnodol yn llenwi eu rhan nhw o'r FfGA ac yn rhoi graddau ansawdd. Os na fydd rhan yr hunanasesiad wedi'i lenwi ymhen 5 niwrnod, gall yr Arolygydd Cofnodol lenwi'r ffurflen heb unrhyw hunanasesiad gan yr Arolygwyr Tîm, Cymheiriaid a Lleyg. Fel arfer, dylai'r Arolygwyr Cofnodol ystyried y sylwadau o broses Sicrhau Ansawdd (SAAd a SAAr) Estyn cyn llenwi graddau'r FfGA a rhoi adborth ar gyfer eu tîm.

Hefyd, gall fod angen i Arolygwyr Cofnodol ystyried profiad yr Arolygydd Tîm, Cymheiriaid neu Leyg wrth lunio barn. Gall fod angen mwy o gymorth ar arolygydd sy'n ymgymryd â'i arolygiad cyntaf nag arolygydd mwy profiadol.

**Mân ddiffygion a diffygion pwysig yn gysylltiedig ag arolygiadau**

Mae'n ofyniad gan Estyn fod pob arolygydd yn ymgymryd ag arolygiadau o ansawdd da. Lle y bo diffygion sylweddol neu bwysig yng ngwaith arolygwyr, mae'n debygol y gallai'r arolygiad fethu bodloni gofynion Estyn neu gallai arwain at gŵyn â chyfiawnhad ynghylch sut cynhaliwyd yr arolygiad. Diffyg sylweddol neu bwysig yw unrhyw wendid yng ngwaith yr arolygydd a allai effeithio ar y barnau a roddir neu a allai amharu'n sylweddol ar ansawdd cyffredinol yr arolygiad, neu a allai adlewyrchu'n wael ar y broses arolygu yn ei chyfanrwydd.

Mae diffyg sylweddol neu bwysig yn tanseilio hyder:

- yng nghywirdeb a dilysrwydd unrhyw Faes Arolygu a/neu
- yn ansawdd arolygiadau ac adroddiadau Estyn.

Dylai'r is-raddau a'r radd gyffredinol ar y FfGA adlewyrchu cydbwysedd y mân ddiffygion a'r diffygion pwysig yng ngwaith pob arolygydd.  Fel arfer, ni ddylai'r radd gyffredinol fod fwy nag un radd yn uwch na'r is-radd isaf a ddyfarnwyd.  Felly, os bydd is-radd C ar y FfGA, ni fyddai'r radd gyffredinol yn fwy na gradd B fel arfer.  Fel rheol, os bydd yr ACof yn dyfarnu dwy is-radd neu fwy ar lefel C neu D, dylai'r radd gyffredinol fod ar lefel C neu D yn y drefn honno.

Lle y bo'r ACof yn dyfarnu gradd gyffredinol sy'n wahanol i radd yr arolygydd ei hun, dylai'r ACof ychwanegu sylw byr i esbonio'r gwahaniaeth.

Lle bynnag y bydd gwaith arolygwyr tîm yn methu cyrraedd y safonau gofynnol (h.y. gradd A neu B yn gyffredinol), bydd Estyn yn cymryd camau i fonitro, cefnogi a helpu'r arolygydd i wella'i arfer. Yn y pen draw, rydym yn defnyddio arolygwyr y mae eu gwaith yn bodloni'r safonau a'r disgwyliadau gofynnol yn unig. Ar gyfer arolygwyr dan gontract, gallem ddefnyddio deilliannau'r FfGA wrth ystyried tendrau a dyfarnu contractau arolygu. Ar gyfer arolygwyr cymheiriaid, lle mae gwaith gryn dipyn islaw ein disgwyliadau (h.y. gradd C neu D yn gyffredinol), efallai y byddwn yn penderfynu peidio ag ailddefnyddio'r Arolygydd Cymheiriaid yn ystod gweithgarwch arolygu yn y dyfodol. Cewch ragor o wybodaeth am drefniadau Estyn i sicrhau ansawdd arolygiadau, gan gynnwys y camau y gallem eu cymryd i wella arfer arolygwyr os nad ydynt yn bodloni disgwyliadau, ar ein gwefan yma.

Mae'r diffiniadau graddau fel a ganlyn:

A – yn bodloni'r gofynion ym mhob agwedd neu bron ym mhob agwedd;
B – yn bodloni'r gofynion, ond rhai mân ddiffygion;
C – yn bodloni'r gofynion, ond gydag ychydig o ddiffygion pwysig;
D – nid yw'n bodloni'r gofynion o ganlyniad i ddiffygion pwysig neu fethiannau difrifol iawn.

## Ffurflen Gwerthuso Arolygydd (FfGA) - ar gyfer Arolygwyr Cymheiriaid, Arolygwyr Lleyg ac Arolygwyr Ychwanegol

**Hunanwerthusiad**

| **Meini prawf** | **Yn bodloni'r gofynion A/B/C/D** | **Sylw** |
|---|---|---|
| Mae'r arolygydd yn cofnodi tystiolaeth briodol yn effeithiol | | |
| Mae'r arolygydd yn gwerthuso gwaith y darparwr yn gywir ac yn deg | | |
| Mae'r arolygydd yn deall/yn cymhwyso'r arweiniad 'Beth rydym yn ei arolygu' a 'Sut rydym yn arolygu' yn briodol | | |
| Mae'r arolygydd yn cyfathrebu ar lafar ac yn ysgrifenedig yn glir ac yn ddiamwys | | |
| Mae'r arolygydd yn cefnogi gwaith y tîm yn bwrpasol, yn unol â'r meddylfryd arolygu | | |
| Mae'r arolygydd yn ymateb yn briodol i her, trafodaeth a dadl | | |
| Mae'r arolygydd yn cynnal yr arolygiad yn ôl safon broffesiynol, uchel | | |
| Mae'r arolygydd yn ymroi'n llwyr i'r broses sicrhau ansawdd | | |
| | | |
| **Gradd FfGA gyffredinol** | | |
| Meysydd i'w hystyried ar gyfer arolygiadau yn y dyfodol | | |

| **Adborth** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
| Roedd yr arolygiad yn brofiad proffesiynol cadarnhaol | | | | |
| Cefais gymorth effeithiol gan yr ACof yn ystod yr arolygiad | | | | |
| Roedd yr hyfforddiant cychwynnol / hyfforddiant diweddaru yn fuddiol ar gyfer yr arolygiad hwn | | | | |
| Rhestrwch rywfaint o'r wybodaeth a'r profiad defnyddiol a gawsoch chi: | | | | |
| Defnyddiwch y gofod hwn i roi unrhyw adborth pellach ar eich profiad o'r arolygiad: | | | | |

**Gwerthusiad yr Arolygydd Cofnodol**

| **Meini prawf** | **Yn bodloni'r gofynion A/B/C/D** | **Sylw** |
|---|---|---|
| Mae'r arolygydd yn cofnodi tystiolaeth briodol yn effeithiol | | |
| Mae'r arolygydd yn gwerthuso gwaith y darparwr yn gywir ac yn deg | | |
| Mae'r arolygydd yn deall/yn cymhwyso'r arweiniad 'Beth rydym yn ei arolygu' a 'Sut rydym yn arolygu' yn briodol | | |
| Mae'r arolygydd yn cyfathrebu ar lafar ac yn ysgrifenedig yn glir ac yn ddiamwys | | |
| Mae'r arolygydd yn cefnogi gwaith y tîm yn bwrpasol, yn unol â'r meddylfryd arolygu | | |
| Mae'r arolygydd yn ymateb yn briodol i her, trafodaeth a dadl | | |
| Mae'r arolygydd yn cynnal yr arolygiad yn ôl safon broffesiynol, uchel | | |
| Mae'r arolygydd yn ymroi'n llwyr i'r broses sicrhau ansawdd | | |
| | | |
| **Gradd FfFA gyffredinol** | | |
| Meysydd i'w hystyried ar gyfer arolygiadau yn y dyfodol (graddau B ac is) | | |

**Tabl arweiniad i ategu barnau'r FfGA**

Mae'r tabl canlynol yn amlinellu arweiniad cyffredinol pellach ar ddyrannu graddau'r FfGA mewn perthynas â mân ddiffygion a diffygion pwysig mewn arolygiadau.

Mae graddau'r FfGA yn y tabl isod yn ymwneud â gwaith Arolygwyr Tîm, Arolygwyr Cymheiriaid ac Arolygwyr Lleyg yn unig.

| **Mae'r arolygydd yn cofnodi tystiolaeth briodol yn effeithiol** | | | |
|---|---|---|---|
| ***Yn bodloni'r gofynion*** | ***Mân ddiffyg*** | ***Diffyg arwyddocaol*** | ***Diffyg pwysig*** |
| **Ystyriwch radd A** | **Ystyriwch radd B** | **Ystyriwch radd C** | **Ystyriwch radd D** |
| Mae'n cofnodi tystiolaeth yn dda o graffu ar ddogfennau | Rhywfaint o brinder wrth gofnodi tystiolaeth | Braidd gormod o fylchau wrth gofnodi tystiolaeth | Bylchau wrth gofnodi tystiolaeth yn tanseilio dilysrwydd a dibynadwyedd y deilliant arolygu, e.e. dim tystiolaeth mewn agwedd y mae gan yr arolygydd gyfrifoldeb amdani |
| Mae'n cofnodi/crynhoi tystiolaeth yn dda o gyfarfodydd â staff a/neu ddysgwyr | Rhywfaint o brinder wrth gofnodi tystiolaeth, ond yn iawn yn gyffredinol | Cofnodi'n cael ei wneud, ond mae gwendidau wrth grynhoi neu werthuso ar sail y dystiolaeth, neu wrth ganolbwyntio ar effaith a safonau | Cyfarfodydd yn cael eu cynnal, ond mae'r cofnod yn annigonol neu'n eisiau; nid yw tystiolaeth o wersi a chraffu ar waith yn cael ei chrynhoi yn y ffurflen fewnbwn |
| Mae'n defnyddio system y ffurflen fewnbwn yn effeithiol heb unrhyw anhawster | Mae'n defnyddio system y ffurflen fewnbwn yn eithaf hyderus, ond angen ychydig o gymorth yn achlysurol, e.e. lle mae'r arolygydd wedi newid enw ffeil | Mae'n defnyddio system y ffurflen fewnbwn yn ddigonol, ond gyda llawer o betruso, ac angen cymorth | Diffyg hyder wrth ddefnyddio system y ffurflen fewnbwn yn gofyn am gryn dipyn o gymorth gan yr Arolygydd Cofnodol, a dim tystiolaeth wedi'i darparu ar gyfer y FfF ar yr adeg briodol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| ***Yn gyffredinol, arolygydd trefnus sy'n cofnodi tystiolaeth yn briodol ar ffurflenni Estyn ac yn defnyddio system y ffurflen fewnbwn yn fedrus*** | ***Yn gyffredinol, mae'r arolygydd yn gweithio'n dda ond angen ychydig o fân-addasiadau i'r ffordd y mae'n defnyddio system y ffurflen fewnbwn ac wrth gofnodi tystiolaeth*** | ***Yn gyffredinol, mae'r arolygydd yn gweithio'n eithaf da gyda system y ffurflen fewnbwn, ond mae'n rhy betrusgar ac ansicr wrth gofnodi tystiolaeth, ac angen llawer o gymorth*** | ***Yn gyffredinol, arolygydd y mae ei waith cofnodi tystiolaeth yn wan. Mae gan yr arolygydd hwn ddiffygion trefniadol sy'n effeithio'n sylweddol ar yr arolygiad, ac a allai greu problemau i Estyn mewn perthynas â gwaith adfer pellach neu fylchau yn y gronfa ddata arolygu*** |
| **Mae'r arolygydd yn gwerthuso gwaith y darparwr yn gywir ac yn deg** | | | |
| ***Yn bodloni'r gofynion*** | ***Mân ddiffyg*** | ***Diffyg arwyddocaol*** | ***Diffyg pwysig*** |
| **Ystyriwch radd A** | **Ystyriwch radd B** | **Ystyriwch radd C** | **Ystyriwch radd D** |
| Mae'n gwerthuso gwaith y darparwr yn gywir, yn deg, yn wrthrychol a heb ragfarn bob amser | Nid yw'r gwerthusiad yn adlewyrchu'r dystiolaeth yn llawn o dro i dro ac nid yw'r cydbwysedd rhwng cryfderau a gwendidau yn hollol iawn mewn ychydig o achosion | Mae'r gwerthusiadau yn weddol sicr, ond mae tuedd yn achlysurol tuag at ddull neu ymagwedd a ffefrir | Mae'r gwerthusiadau yn amlwg yn anghyson neu mae'r cydbwysedd rhwng cryfderau a gwendidau yn anghywir mewn perthynas â'r prif werthusiad, ac nid oes llawer o dystiolaeth i gefnogi'r gwerthusiad pan gaiff ei herio |
| Mae'n sicrhau bod y ffurflen fewnbwn yn cynnwys tystiolaeth ategol briodol i gefnogi pob un o'r datganiadau a gwerthusiadau | Mae ychydig o dystiolaeth ategol braidd yn rhy brin mewn perthynas â mân agweddau ar y fframwaith arolygu | Mae ychydig o dystiolaeth ategol yn rhy brin mewn rhai o feysydd allweddol y fframwaith arolygu | Mae bylchau sylweddol yn sail dystiolaeth yr arolygydd yn golygu nad yw'r gwerthusiadau'n cael eu cefnogi'n llawn gan dystiolaeth |
| ***Yn gyffredinol, arolygydd y mae ei werthusiadau yn sicr, ac fe'u cefnogir yn dda gan dystiolaeth briodol*** | ***Yn gyffredinol, arolygydd y mae ei werthusiadau yn sicr gan mwyaf, ac fe'u cefnogir gan dystiolaeth briodol ym mhob achos bron*** | ***Yn gyffredinol, arolygydd y mae angen llawer o gymorth arno i gasglu tystiolaeth briodol ac i lunio gwerthusiadau dibynadwy*** | ***Yn gyffredinol, arolygydd y mae ei werthusiadau yn wan/ansicr ac nad yw'n defnyddio tystiolaeth ategol briodol pan gaiff ei herio*** |

| Mae'r arolygydd yn deall ac yn cymhwyso'r arweiniad arolygu yn briodol | | | |
|---|---|---|---|
| ***Yn bodloni'r gofynion*** | ***Mân ddiffyg*** | ***Diffyg arwyddocaol*** | ***Diffyg pwysig*** |
| **Ystyriwch radd A** | **Ystyriwch radd B** | **Ystyriwch radd C** | **Ystyriwch radd D** |
| Mae'r arolygydd yn gwybod yn dda am y dogfennau arweiniad arolygu 'Beth rydym yn ei arolygu' a 'Sut rydym yn arolygu' | Mae'r arolygydd yn betrusgar ynglŷn ag ychydig o fân agweddau ar arweiniad | Mae angen llawer o gymorth ar yr arolygydd wrth ddefnyddio'r dogfennau arweiniad 'Beth rydym yn ei arolygu' a 'Sut rydym yn arolygu' | Mae'r arolygydd yn ansicr ynghylch agweddau arwyddocaol ar y dogfennau arweiniad arolygu |
| Mae'r arolygydd yn ymwybodol o feini prawf y llawlyfr neu unrhyw brotocolau arweiniad ac yn eu cymhwyso'n briodol | Nid yw meini prawf dogfennol yn cael eu cymhwyso'n briodol mewn un neu ddau o fân achosion | Nid yw meini prawf yr arweiniad yn cael eu cymhwyso mewn gormod o achosion braidd, ac mae'n mynd dros rai agweddau yn rhy frysiog o lawer | Nid yw'r arolygydd yn dilyn 'Beth rydym yn ei arolygu' a 'Sut rydym yn arolygu' yn briodol |
| Mae pob un o'r datganiadau/ gwerthusiadau yn cyfateb i feini prawf y llawlyfr ac yn mynd i mewn i'r adrannau priodol o'r adroddiad | Mân achosion o gamosod cynnwys yn erbyn 'Beth rydym yn ei arolygu' | Mae tuedd o gamosod sylwadau ac ansicrwydd ynghylch meini prawf ar gyfer agweddau a meysydd arolygu | Mae hepgoriadau a/neu wyriadau sylweddol o 'Beth rydym yn ei arolygu' |
| ***Yn gyffredinol, arolygydd sy'n gwybod y dogfennau 'Beth rydym yn ei arolygu' a 'Sut rydym yn arolygu' yn dda iawn, ac sy'n gwneud defnydd da iawn o'r wybodaeth hon*** | ***Yn gyffredinol, arolygydd sy'n gwybod y dogfennau 'Beth rydym yn ei arolygu' a 'Sut rydym yn arolygu' yn dda ar y cyfan, ond mae'n ansicr ynghylch ychydig o fân elfennau*** | ***Yn gyffredinol, arolygydd y mae angen llawer o gymorth arno i ddefnyddio'r dogfennau 'Beth rydym yn ei arolygu' a 'Sut rydym yn arolygu' yn briodol*** | ***Yn gyffredinol, arolygydd nad yw'n gwybod y dogfennau 'Beth rydym yn ei arolygu' a 'Sut rydym yn arolygu' yn ddigon da, ac mae angen cymorth sylweddol arno gan yr Arolygydd Cofnodol ac aelodau eraill y tîm*** |

| **Mae'r arolygydd yn cyfathrebu'n glir (ar lafar ac yn ysgrifenedig);** | | | |
|---|---|---|---|
| ***Yn bodloni'r gofynion*** | ***Mân ddiffyg*** | ***Diffyg arwyddocaol*** | ***Diffyg pwysig*** |
| **Ystyriwch radd A** | **Ystyriwch radd B** | **Ystyriwch radd C** | **Ystyriwch radd D** |
| Mae'r arolygydd yn gweithio'n dda fel aelod o'r tîm arolygu ac mae'n cysylltu'n dda ag aelodau'r tîm, staff a dysgwyr | Mae un neu ddau o achlysuron lle nad yw'r arolygydd yn cysylltu gystal ag y gallai â'r tîm ac eraill | Mae'r arolygydd yn gweithio'n ddyfal, ond mae'n ei chael hi'n anodd ar brydiau i dderbyn barnau pobl eraill | Nid yw'r arolygydd yn gweithio'n dda fel aelod o'r tîm ac mae'n gweithio gormod ar ei ben ei hun neu yn groes i'r tîm |
| Mae medrau cyfathrebu llafar yr arolygydd yn effeithiol ac yn ddarbwyllol iawn | Mae medrau llafar yr arolygydd yn petruso ar brydiau | Mae medrau llafar yr arolygydd yn gymharol gadarn, ond mae diffyg egni ynddynt, ac maent braidd yn anargyhoeddiadol at ei gilydd | Nid yw'r arolygydd yn cyfathrebu'n ddigon effeithiol ar lafar â rhanddeiliaid eraill |
| Mae'r ysgrifennu yn dilyn arweiniad ysgrifennu Estyn o ran ei arddull a gramadeg, p'un a yw hynny mewn rhyddiaith neu ar ffurf pwyntiau bwled. Mae negeseuon yn glir ac nid oes angen fawr o sylw neu ddim sylw arno gan yr Arolygydd Cofnodol | Ychydig o lithriadau o ran cyfathrebu ysgrifenedig yn adrannau'r adroddiad ac mae angen sylw'r Arolygydd Cofnodol i'w gwneud yn barod ar gyfer yr adborth. Fodd bynnag, mae'r negeseuon yn glir, ar y cyfan. | Braidd gormod o lithriadau yn yr ysgrifennu (p'un a yw hynny mewn rhyddiaith neu ar ffurf pwyntiau bwled) y mae angen cryn dipyn o sylw arnynt gan yr Arolygydd Cofnodol. Yn gyffredinol, mae angen sylw'r Arolygydd Cofnodol ar y prif negeseuon i'w gwneud yn ddigon clir ar gyfer adborth. | Ysgrifennu / pwyntiau bwled sy'n amhriodol o ran arddull neu lle mae angen i'r Arolygydd Cofnodol ailysgrifennu adran gyfan. Efallai eu bod yn rhy negyddol neu'n rhy gadarnhaol. Ni chaiff negeseuon eu cyfleu yn ddigon clir trwy'r ysgrifennu. |
| **Yn gyffredinol, arolygydd sy'n cyfathrebu'n hyderus ac yn fedrus ar lafar ac yn ysgrifenedig, ac mae'n gweithio'n dda fel aelod o dîm** | **Yn gyffredinol, arolygydd y mae ei berfformiad yn dda yn gyffredinol, ond gall fod ychydig yn gryfach mewn un agwedd ar gyfathrebu yn fwy nag un arall (ar lafar neu'n ysgrifenedig)** | **Yn gyffredinol, arolygydd sydd â rhai gwendidau yn ei fedrau cyfathrebu, ac mae angen ychydig gormod o gymorth cyffredinol arno gan yr Arolygydd Cofnodol** | **Yn gyffredinol, arolygydd y mae angen llawer iawn o gymorth arno o ran ei waith llafar neu ysgrifenedig yn ystod arolygiad, e.e. mae angen gwaith sylweddol ar ei werthusiadau ysgrifenedig (rhyddiaith neu bwyntiau bwled) cyn y gall yr Arolygydd Cofnodol gyflwyno'r ffurflen fewnbwn i'w golygu gan Estyn** |

| Mae'r arolygydd yn ymateb yn briodol i her, trafodaeth a dadl | | | |
|---|---|---|---|
| Mae'r arolygydd bob amser yn aros yn broffesiynol a phwyllog, hyd yn oed pan gaiff ei herio. Mae'n cyfrannu at ddadl tîm yn dda ac yn cynorthwyo'r tîm i lunio casgliadau dilys. Mae'n gwrando'n astud ar aelodau eraill o'r tîm ac yn cyfrannu, pan fo'n briodol. | Mae'r arolygydd yn ymateb yn broffesiynol i drafodaeth a dadl, ond efallai bydd yn mynd yn ddryslyd pan gaiff ei herio. Efallai na fydd yn gwrando'n ddigon gofalus i gyfrannu pwyntiau dilys ar adegau perthnasol. | Efallai bydd yr arolygydd yn ymateb yn rhy amddiffynnol pan gaiff ei herio gan aelodau'r tîm. Efallai bydd angen anogaeth a chymorth arno i gyfrannu ei farn at drafodaeth y tîm, neu efallai bydd angen i'r ACof ei atal rhag rheoli'r drafodaeth dros aelodau eraill o'r tîm. | Nid yw'r arolygydd yn ymateb yn briodol i her neu ddadl. Efallai bydd yn mynd yn ymosodol neu'n ofidus ac efallai na fydd yn cyfrannu at drafodaeth y tîm yn briodol. Efallai na fydd ei werthusiadau'n adlewyrchu'r dystiolaeth y mae'r tîm wedi'i chyfrannu, neu efallai ei fod yn torri ar draws yn amhriodol, neu'n rhwystro dadl a thrafodaeth bwrpasol y tîm. |
| Mae'r arolygydd yn ymateb yn gadarn ond yn briodol i her gan aelodau'r tîm, gan ddefnyddio tystiolaeth uniongyrchol wedi'i dewis yn dda i gefnogi ei farn. Mae'r arolygydd yn gofyn am eglurhad ac yn ymgysylltu'n broffesiynol ac yn drylwyr â thrafodaethau'r tîm, o fewn y tîm ac mewn cyfarfodydd â'r enwebai. | Gyda chymorth, mae'r arolygydd yn ymateb yn briodol i ddadl. Mae'n mynegi ei werthusiadau'n briodol, a phan gaiff ei annog, yn cynnig tystiolaeth wedi'i chyfosod yn dda i gefnogi ei farn. Mae'n diwygio'i farn yn sensitif yn sgil her, lle bo'n briodol. | Mae angen cymorth gan yr Arolygydd Cofnodol ar yr aelod o'r tîm i fynegi ei farn yn nhrafodaethau'r tîm, ac yn cefnogi'r farn â thystiolaeth y mae wedi'i chasglu. | Nid oes gan yr arolygydd werthusiad na chyfosodiad wedi'i saernio'n dda o'r dystiolaeth y mae wedi'i chasglu. Mae angen cyfarwyddyd arno i ddiwygio'i werthusiad ar ôl dadl tîm. Mae'r arolygydd yn herio aelodau eraill o'r tîm ond nid yw wedi ystyried eu her yn ddigon da, ac efallai bod rhaid i'r ACof unioni'r sefyllfa. |
| Mae'r arolygydd yn cefnogi gwaith y tîm yn bwrpasol, yn unol â'r meddylfryd arolygu. | Yn gyffredinol, mae'r arolygydd yn cefnogi gwaith y tîm ac yn defnyddio tystiolaeth gymesur i gefnogi'r ddadl. | Mae'r arolygydd yn cytuno â phopeth y mae'r tîm yn ei drafod, ar y cyfan, ac mae braidd yn dawedog i gynnig ei farn a'i werthusiad ei hun heb ysgogiad | Nid yw'r arolygydd yn chwarae ei ran fel aelod llawn o'r tîm ac nid yw'n cefnogi gwaith y tîm yn bwrpasol. |
| **Yn gyffredinol, arolygydd sy'n ymateb yn dda i her, dadl a thrafodaeth. Efallai na fydd yn cytuno bob amser, ond mae ei agwedd a'i ymarweddiad bob amser yn broffesiynol a chefnogol.** | **Yn gyffredinol, mae'r arolygydd yn cymryd rhan yn briodol mewn dadl a thrafodaeth pan gaiff ei annog, ond efallai ei fod yn nerfus neu'n orbryderus ynglŷn â bod yn ddadleuol.** | **Yn gyffredinol, arolygydd sydd angen cymorth gan yr ACof i gymryd rhan mewn trafodaethau tîm.** | **Yn gyffredinol, arolygydd nad yw'n ymateb yn dda i ddadl, her ac nid yw'n cefnogi dynameg y tîm na'r meddylfryd arolygu'n ddigon da.** |

| **Mae'r arolygydd yn cynnal yr arolygiad yn ôl safon broffesiynol uchel** | | | |
|---|---|---|---|
| ***Yn bodloni'r gofynion*** | ***Mân ddiffyg*** | ***Diffyg arwyddocaol*** | ***Diffyg pwysig*** |
| **Ystyriwch radd A** | **Ystyriwch radd B** | **Ystyriwch radd C** | **Ystyriwch radd D** |
| Mae gwaith yr arolygydd yn gwbl broffesiynol ac yn ddi-fai. Maent yn cyfleu'r meddylfryd arolygu yn dda | Nid yw un neu ddau o fân gamau gweithredu/sylwadau gan yr aelod o'r tîm yn cyd-fynd yn gyfan gwbl â'r meddylfryd arolygu. Gallai'r rhain arwain at ychydig o feirniadaeth gan yr ysgol/ darparwr, ond nid i'r graddau bod hynny'n tanseilio hyder yn y tîm neu eu canfyddiadau yn gyffredinol | Braidd gormod o gamau gweithredu/sylwadau sy'n amhriodol, ac nid ydynt yn gydnaws â'r meddylfryd arolygu. Gallai'r rhain ennyn beirniadaeth gan yr enwebai, ond mae'r arolygydd yn ymateb yn briodol iddynt, a gall yr Arolygydd Cofnodol ddatrys y sefyllfa gydag ymdrech | Mae camau gweithredu/sylwadau amhriodol gan yr arolygydd, nad ydynt yn gydnaws â'r meddylfryd arolygu, yn debygol iawn o arwain at feirniadaeth a thanseilio hyder ym mhroffesiynoldeb y tîm a/neu danseilio'r arolygiad yn gyffredinol |
| Mae'r arolygydd yn feddwl agored, ac nid yw'n dangos unrhyw duedd na rhagfarn bersonol | Mae'r arolygydd yn gadael i'w brofiad ei hun reoli ar brydiau, ond nid i'r graddau bod tuedd yn tarfu ar feddylfryd agored | Braidd gormod o duedd, e.e. dangos ffafriaeth o un dull neu gynllun masnachol dros un arall, nad yw'n gydnaws â'r meddylfryd | Mae'r arolygydd yn gadael i duedd a/neu ragfarn bersonol reoli, ac mae hyn yn tanseilio dibynadwyedd a dilysrwydd ei werthusiadau |
| Mae'r arolygydd yn gweithio'n dda fel aelod o'r tîm ac mae'n ymgysylltu'n bwrpasol ac yn rhagweithiol mewn trafodaethau gyda'r holl rhanddeiliaid | Nid yw'r arolygydd yn cymryd rhan lawn bob amser, neu mae'n rheoli trafodaethau gormod ar brydiau | Mae'r arolygydd yn rhy betrusgar mewn trafodaethau neu mae'n sefyll yn ôl gormod oddi wrth her a thrafodaeth gadarn, ond mae ei werthusiad yn ddilys ac yn ddibynadwy yn gyffredinol | Mae'r arolygydd ar wahân i'r tîm gormod a/neu nid yw'n cymryd rhan yn briodol mewn trafodaethau ag aelodau eraill y tîm neu gyda staff/dysgwyr/rhanddeiliaid |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Yn gyffredinol, arolygydd sy'n ymddwyn yn broffesiynol bob amser** | **Yn gyffredinol, arolygydd y mae ei fân weithredoedd/ sylwadau yn denu ychydig o feirniadaeth gan y darparwr neu aelod arall o'r tîm, ond maent yn hawdd i'r Arolygydd Cofnodol eu datrys** | **Yn gyffredinol, arolygydd y gallai ei fân weithredoedd/ sylwadau ddenu gormod o feirniadaeth, ac y mae'n rhaid i'r Arolygydd Cofnodol eu datrys. Nid yw ymddygiad yr arolygydd yn bodloni disgwyliadau Estyn yn llawn, fel yr amlinellir yn 'Sut rydym ni'n arolygu'.** | **Yn gyffredinol, arolygydd y mae ei weithredoedd/sylwadau yn gwneud y tîm yn agored i feirniadaeth sylweddol, haeddiannol gan y darparwr a/neu bobl eraill. Nid yw ymddygiad yr arolygydd yn cydymffurfio â'r meddylfryd arolygu, fel yr amlinellir yn 'Sut rydym ni'n arolygu'.** |

| **Mae'r arolygydd yn ymgysylltu'n llawn â'r broses sicrhau ansawdd**<br>*Dylai Arolygwyr Cofnodol sylwi bod y dangosydd hwn yn cyfeirio at ymgysylltu â'r broses sicrhau ansawdd yn ystod yr arolygiad, nid llenwi FfGA. Ni ddylai Arolygwyr Cofnodol roi marciau is i arolygydd nad yw'n dewis llenwi FfGA. Byddem yn annog arolygwyr i fyfyrio ar eu gwaith, ond nid yw llenwi FfGA yn rhan o'u contract gyda ni.* | | | |
|---|---|---|---|
| Mae'r arolygydd yn rhagweithiol wrth ofyn am adborth ac yn rhoi ystyriaeth dda i unrhyw adborth gan yr ACof yn ystod yr arolygiad. Mae'n sicrhau bod ei sail dystiolaeth a'i brif werthusiad (rhyddiaith neu bwyntiau bwled) yn cyd-fynd yn dda ac yn gwrthsefyll craffu. | Mae'r arolygydd yn derbyn adborth gan yr ACof yn dda ac yn cryfhau ei arfer i ddysgu oddi wrth unrhyw (fân) ddiffygion neu awgrymiadau. | Mae'r arolygydd braidd yn amddiffynnol pan gynigir adborth iddo wella'i waith. Nid yw'n gwerthfawrogi pwysigrwydd hanfodol gwerthusiad trylwyr o arolygiadau a gwerth sicrhau ansawdd yn llawn. | Mae'r arolygydd braidd yn hunanfodlon pan dynnir ei sylw at ddiffygion. Efallai ei fod yn gwbl anymwybodol o'r angen am gasglu a gwerthuso tystiolaeth yn drylwyr. |
| Pan fo'n briodol, mae'r arolygydd yn gwneud nodyn o adborth o FfGA neu ACof blaenorol ac yn gweithio i fynd i'r afael â hyn. O ganlyniad, mae'n gweithio'n rhagweithiol i wella'i arfer ei hun, gan ddysgu oddi wrth ei brofiad. | Gyda chymorth, efallai bydd yr arolygydd yn dechrau nodi drosto'i hun sut i gryfhau ei broses i gasglu a gwerthuso tystiolaeth. Mae'n ystyried adborth o arolygiadau blaenorol, e.e. trwy FfGA. | Mae'r arolygydd yn rhoi ystyriaeth gyfyngedig i adborth i gryfhau ei waith, fel rhan o rôl yr ACof, ond nid yw'n brysio i gywiro hyn, neu ddealltwriaeth lawn o pam mae'r diffyg yn bwysig. | Nid yw'r arolygydd yn cymryd camau priodol i gryfhau ei waith, hyd yn oed pan gaiff ei atgoffa. Mae hyn yn creu gwaith ychwanegol i'r ACof gryfhau'r canfyddiadau a'r dystiolaeth arolygu. |
| **Yn gyffredinol, arolygydd myfyriol a hunanymwybodol sy'n gweithio'n rhagweithiol i gryfhau ei arfer. Mae'r arolygydd yn deall proses SA Estyn ac yn mynd ati i gyfrannu at sicrhau bod yr arolygiad yn drylwyr ac yn gallu gwrthsefyll craffu gan y cyhoedd.** | **Yn gyffredinol, arolygydd myfyriol sy'n derbyn adborth yn briodol ac yn gweithio i gryfhau ei arfer o ganlyniad. Nid yw ei waith yn peri pryder.** | **Mae angen atgoffa'r arolygydd ambell waith am bwysigrwydd arfer arolygu sy'n gallu gwrthsefyll craffu gan y cyhoedd, ac sy'n ddigon cadarn i wrthsefyll craffu.** | **Yn gyffredinol, arolygydd y mae ei waith yn cynnwys diffygion nodedig nad yw'n cydnabod eu bod yn peryglu cadernid y broses arolygu. Er iddo gael ei atgoffa, nid yw'n cymryd camau sy'n arwain at arfer gryfach.** |

| **Gradd FfGA gyffredinol** | | | |
|---|---|---|---|
| ***Yn bodloni'r gofynion*** | ***Mân ddiffyg*** | ***Diffyg arwyddocaol*** | ***Diffyg pwysig*** |
| **Ystyriwch radd A** | **Ystyriwch radd B** | **Ystyriwch radd C os dwy is-radd neu fwy yn radd C** | **Ystyriwch radd D os yw dwy is-radd neu fwy yn radd D** |
| **Yn gyffredinol, arolygydd y mae ei waith yn gampus, heb unrhyw ddiffygion, ac nid oes angen unrhyw gymorth gan yr Arolygydd Cofnodol. Byddai'r Arolygydd Cofnodol yn hapus i weld yr arolygydd ar ei dîm y tro nesaf eto.** | **Yn gyffredinol, arolygydd y mae angen gwneud mân-addasiadau i'w waith, ac yn achlysurol iawn mae angen cymorth gan yr Arolygydd Cofnodol yma ac acw, ond mae'n dda, at ei gilydd. Byddai'r Arolygydd Cofnodol yn hapus i weld yr arolygydd ar ei dîm y tro nesaf eto, ond byddai'n gobeithio'i fod wedi gwella mewn ychydig o fân agweddau ar ei waith, e.e. cymhwyso dogfen 'Sut rydym yn arolygu' yn llawn.** | **Yn gyffredinol, arolygydd y mae angen cymorth sylweddol arno gan yr Arolygydd Cofnodol. Ar yr achlysur hwn, nid yw gwaith yr arolygydd yn bodloni gofynion. Byddai'r Arolygydd Cofnodol yn hapus i weld yr arolygydd ar ei dîm y tro nesaf eto, ar yr amod bod yr arolygydd wedi ystyried yr adborth yn y FfGA ac wedi gweithio i wella'r sefyllfa.** | **Yn gyffredinol, arolygydd y mae gwendidau arwyddocaol yn ei waith. Mae ar yr arolygydd angen gormod o gymorth gan yr Arolygydd Cofnodol neu Estyn i'w helpu i fodloni gofynion. Byddai gan yr Arolygydd Cofnodol amheuon o ddifrif ynglŷn â gallu'r arolygydd i fodloni gofynion Estyn.** |

| **Cynllun gweithredu i wella perfformiad unigol:**<br><br>**Cyfnod y mae a wnelo'r cynllun ag ef:**<br><br>**Monitro:** |
|---|

| **Maes allweddol i'w wella a gytunwyd** | **Gofyniad penodol** | **Tystiolaeth ofynnol** | **Diwedd cyfnod: asesiadau/sylwadau gan y Cyfarwyddwr Cynorthwyol** |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

**Gwybodaeth ychwanegol:**

**Crynodeb:**